# PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD

## COFNODION DRAFFT

### Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor

**Dyddiad:** 26 Ionawr 2000
**Amser:** 9am-12.30pm
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgor 2, Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Presennol**

*Aelodau*

| | |
|---|---|
| Val Feld (Cadeirydd) | Dwyrain Abertawe |
| Alun Cairns | De Orllewin Cymru |
| Michael German | Dwyrain De Cymru |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Rhodri Morgan (AS) | Gorllewin Caerdydd |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |
| Tom Middlehurst (AS) (Eitem 4) | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Cynog Dafis (Eitem 4) | Canolbarth a Gorllewin Cymru |

*Swyddogion*

| | |
|---|---|
| Derek Jones | Uwch Gyfarwyddwr, Materion Economaidd |
| Michael Cochlin | Cyfarwyddwr y Grðp Datblygu Economaidd |
| Neil Thomas | Pennaeth Hyfforddiant, Adran Gyllid a Rheolaeth |
| Gerry Quarrell | Adran Wasanaethau Busens |
| Michael Phelps | Prif Ymgynghorydd Economaidd |
| Anne Stephenson | Adran Ddatblygu Economaidd |

*Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Helen Usher | Clerc |

| | |
|---|---|
| Jo Glenn | Dirprwy Glerc |
| Jo Trott | Dirprwy Glerc |

**Ymddiheuriadau ac Eilyddion**
*Derbyniwyd ymddiheuriad gan Ron Davies nad oedd yn gallu mynychu oherwydd salwch.*

**Eitem 1: Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**
1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau o'r Pwyllgor a'r cyhoedd i gyfarfod cyntaf y Flwyddyn Newydd. Diolchodd hefyd i Tom Middlehurst a Cynog Dafis am fynychu. Cyfeiriodd at yr heriau oedd yn wynebu'r Pwyllgor a phwysleisiodd ei gobaith y byddai'r rhain yn cael eu trin mewn ysbryd lle y byddai aelodau'n gwrando ar syniadau eraill a'u parchu, a gweithio â'i gilydd i ddatblygu economi Cymru.

**Eitem 2: Cofnodion Cyfarfod 15 Rhagfyr 1999**

**2.1 Cywirdeb**
2.1 Dylid diwygio paragraff 5.10 (tudalen 10) a oedd yn awgrymu bod y Comisiwn Ewropeaidd yn fodlon ar y cyfan gyda'r dull a fabwysiadwyd yn SPD Cymru ar gyfer materion cyfleoedd cyfartal i gofnodi pryderon rhai aelodau nad oedd hyn yn adlewyrchu safbwyntiau gwirioneddol y Comisiwn**. [Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor.**

**2.2 Camau Gweithredu**

- Nododd y Pwyllgor y diweddariadau yn y papur. Hefyd, cytunodd Ysgrifennydd y Cynulliad i ddarparu papur ar gynnydd y cymhorthion gweithredu (i gynnwys Treth Gorfforaeth) ac yn y Gronfa Llwybr i Lwyddiant. **[Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad]**

**Eitem 3: Adroddiad Ysgrifennydd y Cynulliad**
3.1 Nododd Ysgrifennydd y Cynulliad bod yr economi'n iach ar y cyfan, ond roedd yn anodd pennu ar hyn o bryd a fyddai unrhyw effaith sector-benodol yn dilyn y cynnydd pellach yn y bunt. Rhoddwyd gwybod am y datblygiadau canlynol;

- Roedd Athlons Company Cyfyngedig, (Sun Ya Shoes), gwneuthurwr esgidiau Tsieineaidd yn sefydlu ei bencadlys cynhyrchu Ewropeaidd yn Aberdaugleddau. Byddai Athlons yn cydosod a chynhyrchu esgidiau i'w gwerthu ledled Prydain ac Ewrop.
- Roedd Exel Walsh Western, Casnewydd yn sefydlu ffatri i roi cymorth i ffatri LG Electronics trwy gynhyrchu a chydosod offer ategol.
- Carlsberg Tetley, Wrecsam - colli swyddi yn dilyn cau'r bragdy.
- Betws Anthracite, Rhydaman - diswyddiadau tymor byr yn codi o'r angen i ailstrwythuro i sicrhau dyfodol llewyrchus.
- Chartered Trust Cyf, Caerdydd - diswyddiadau'n dilyn cau'r adran llogi ceir.

- Teddington Bellows, Gorllewin Morgannwg - diswyddiadau'n cael eu gwneud, ond gobaith am ehangu'n ddiweddarach.
- Burlington Toiletries, Y Trallwng - colli swyddi (pecynnu'n bennaf)

3.2 Codwyd y pwyntiau canlynol mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau:

- Byddai Ysgrifennydd y Cynulliad yn cyfarfod â'r Comisiwn yr wythnos honno i drafod datblygiadau ynglþn â Map Ardaloedd Cynorthwyedig (cymorth rhanbarthol dethol). Gobeithiwyd yn awr y gellid datrys y broblem mewn wythnosau yn hytrach na misoedd fel yr ofnwyd yn wreiddiol.
- Roedd cryn bryder ynglþn â dyfodol gweithrediadau Bairdwear yng Nghymru. Roedd Bairdwear yn erlyn Marks and Spencer ar hyn o bryd oherwydd tor-cytundeb. Nid oedd y naill gwmni na'r llall yn gwneud datganiadau cyhoeddus ynglþn â'u sefyllfaoedd oherwydd hyn. Roedd y mater o ddetholusrwydd cytundebau yn fater y gellid ei ystyried wrth adolygu cymorth a datblygiad busnes **[Gweithredu: Clerc]**

- Rhoddwyd cadarnhad bod cynigion y DU ar gyfer Amcan 2 o ran Cymru wedi'i dderbyn yn awr gan y Comisiwn ac roedd cadarnhad ffurfiol o hyn i'w ddisgwyl yn fuan. (Nid oedd cysylltiad rhwng y trafodaethau Amcan 2 a'r trafodaethau Ardal Gynorthwyedig.)

**Eitem 4: ETAG**

4.1 Croesawodd y Cadeirydd Cynog Dafis (Cadeirydd, Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed) a Tom Middlehurst AS i'r cyfarfod.

4.2 Diolchodd Tom Middlehurst i aelodau am roi gwahoddiad iddo fynychu'r cyfarfod. Nododd bod y Cabinet yn cefnogi argymhellion ETAG yn llawn a rhoddodd ganmoliaeth i'r ffordd yr roedd y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed wedi ymdrin â'r mater. Cymeradwyodd yr egwyddor a oedd yn gynhenid yn yr adroddiad, sef dymchwel y rhwystrau i ddysgu.

4.3 Nododd Cynog Dafis fod y papur a gyflwynwyd i'w drafod yn adlewyrchiad teg o safbwyntiau'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed ynglþn ag elfen fusnes swyddogaethau Cynghorau Hyfforddi a Menter a'i fod yn gyson â'i argymhellion. Tynnodd sylw aelodau at y rhestr o swyddogaethau menter oedd yn cael eu cynnwys yn y papur a'r cyrff lle'r awgrymwyd eu bod am eu hail-leoli. Cytunwyd ei bod yn hanfodol sicrhau nad oedd dim o'r swyddogaethau hyn cael eu hanwybyddu wrth ad-drefnu. Roedd parhad yn bwysig iawn wrth ystyried dechrau'r rhaglen Amcan 1. Aeth Mr Dafis ymlaen i bwysleisio'r rôl allweddol oedd gan y gymuned fusnes i'w chwarae yn y cynigion, yn enwedig ar lefel ranbarthol. Gorffennodd trwy bwysleisio'r angen i gydlynu polisïau addysg, hyfforddiant a datblygu economaidd ar bob lefel a chyda phob chwaraewr - cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

4.4 Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau cyffredinol wedyn a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Mynegwyd pryder ynglþn â rôl y Paneli Ymgynghorol Rhanbarthol. Teimlai un Aelod eu bod yn rhoi cwmwl dros rôl bresennol y Cynghorau Hyfforddi a Menter ac na fyddent felly'n denu'r gwir gyrff penderfynu o'r sector preifat. Awgrymwyd nad oedd y term 'ymgynghorol' yn adlewyrchu natur y corff yn llawn a bod angen egluro rôl yr haen ranbarthol. Cynigiodd Phil Williams y ffurf ganlynol o eiriau "Dylai pwyllgorau rhanbarthol, mewn ymgynghoriad â'r swyddogion rhanbarthol ar sail y cynigion gan y CCETau, baratoi cynlluniau ar gyfer darparu hyfforddiant ar sail gwaith i'w gyflwyno i'r Cyngor, ac i'w hystyried ganddo" fel eglurhad.
- Roedd gan y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed syniad clir bod yn rhaid i ganghennau rhanbarthol CETW fod yn hollol atebol ar lefel genedlaethol os oedd y dull mwy strategol o hyfforddi am fod yn llwyddiannus. Eglurodd Tom Middlehurst bod disgwyl i CETW fod yn gorff gweithredol pwerus iawn gyda phresenoldeb busnes sylweddol a fyddai'n penodi Cadeiryddion yr haenau rhanbarthol. Byddai'r Cadeiryddion yn aelodau o'r Cyngor Cenedlaethol ac yn cyfrannu'n uniongyrchol i CETW trwy fod yn aelod o'r corff dan sylw, a sicrhau drwy hyn bod anghenion rhanbarthol yn cael eu hadlewyrchu mewn cynlluniau cenedlaethol ar gyfer darparu a chyllido hyfforddiant. Dywedodd Cynog Dafis ei fod yn rhagweld y byddai Cadeiryddion y pwyllgorau rhanbarthol yn dod o'r sector busnes. Gyda'r term arfaethedig 'bwrdd ymgynghorol', crybwyllwyd enghraifft Bwrdd Ymgynghorol Datblygiad Diwydiannol Cymru a chydnabuwyd bod hyn, er ei fod yn gorff 'ymgynghorol', yn denu aelodau o'r radd flaenaf.
- Mynegodd aelodau eraill bryder na ddylid gwneud rhagdybiaethau yn ystod y cyfnod cynnar hwn ynglþn ag a ddylai cadeiryddion o haenau amrywiol fod o'r gymuned fusnes yn benodol. Ni ddylid anwybyddu'r medrau y gallai'r 'mentrwyr dinesig' honedig gyda phrofiad o'r sectorau cyhoeddus a phreifat eu cyfrannu at y fath gyrff.
- Cydnabuwyd yr angen i sicrhau cysylltiadau gyda'r fforymau economaidd rhanbarthol.
- Cytunwyd bod dull 'tua'r dyfodol' Iwerddon yn fwy priodol na dadlau a ddylai darpariaeth hyfforddiant ar ôl 16 oed gael ei arwain gan alw neu gyflenwr.

4.5 Symudodd y drafodaeth wedyn at bapur EDC-02-00(p.2W). Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Ceisiodd y papur gasglu argymhellion cynnar y Pwyllgor ynglþn â rheolaeth swyddogaethau menter y Cyngor Hyfforddi a Menter yn y dyfodol. Teimlai aelodau eu bod angen rhagor o fanylion am y cynlluniau gwreiddiol cyn ystyried sut y gellid eu darparu orau yn y dyfodol. Roedd angen amserlen weithredu fwy clir o'r trefniadau newydd hefyd. Cytunodd Ysgrifennydd y Cynulliad i ddarparu papur yn rhoi manylion am swyddogaethau a chostau cysylltiedig presennol y Cyngor Hyfforddi a Menter, ynghyd ag amserlen fanwl i'w gweithredu. Er hynny, cydnabuwyd bod ansicrwydd yn parhau ymhlith gweithwyr hyd nes y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud. Hefyd, roedd yn hanfodol bod y trefniadau newydd yn cael eu hegluro cyn gweithredu Amcan 1. Roedd y Pwyllgor yn rhannu'r pryderon allweddol hyn a chytunwyd y dylai penderfyniadau am y mater hwn gael eu gwneud yn fuan yn ystod yr arolwg o gymorth a datblygiad busnes a oedd ar fin cael ei gynnal. **[Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad]**

- Roedd Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed y Cynulliad yn awyddus i wahaniaethu rhwng swyddogaethau menter ac adnoddau a datblygiad dynol (HRD). Roedd o’r farn y dylai’r olaf gael ei gyflwyno i CETW. Teimlai aelodau’n gryf bod gorgyffwrdd sylweddol rhwng hyfforddiant (HRD) a menter a bod y Pwyllgor angen amser i ddatrys y materion ffiniol hyn. Roedd yn bwysig peidio achub y blaen ar yr arolwg a oedd ar fin cael ei gynnal gan y Pwyllgor.
- Byddai'r cwestiwn o ba swyddogaethau menter Cyngor Hyfforddi a Menter presennol oedd yn llwyddiannus a pha rai oedd yn aflwyddiannus yn ffurfio agwedd allweddol o'r arolwg o gymorth a datblygiad busnes.
- Roedd Aelodau'n bryderus nad oedd swyddogaethau Cyngor Hyfforddi a Menter ychwanegol yn ymddangos i gael eu cynnwys ar y rhestr i gael ei throsglwyddo, gan gynnwys cyngor a chymorth diswyddo, gofal plant a rhaglenni eithrio o gymdeithas. Eglurwyd nad oedd y rhain yn rhan o'r rhaglen fenter er eu bod yn rai o swyddogaethau'r Cyngor Hyfforddi a Menter (TEC). Gyda gwaith a oedd yn ymwneud â diswyddo, eglurwyd y byddai TECau yn defnyddio'r rhaglen Hyfforddiant ar Sail Gwaith i Oedolion i ailddysgu'r rhai hynny a fyddai'n colli eu gwaith mewn achosion o ddiswyddo arwyddocaol. Swyddogaeth hyfforddi oedd hon yn y bôn a byddai'n cael ei throsglwyddo i CETW oherwydd hynny; nid oedd swyddogaeth gofal plant TEC yn cael ei chynnwys ar y rhestr i'w throsglwyddo oherwydd bod y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed wedi cynnig y dylai drosglwyddo i awdurdodau lleol. Er hynny, gan ei fod wedi'i gysylltu â’r TEC yn wreiddiol mewn ymdrech i atgyfnerthu’r rôl allweddol oedd yn rhaid iddo'i chwarae mewn datblygiad busnes (mewn cyferbyniad â swyddogaeth gymdeithasol), teimlai aelodau bod hwn yn fater y dylid ei gynnwys yn yr arolwg; gydag eithrio cymdeithasol, cyllidwyd hwn gan weddillion TEC ac roedd yn ddewisol oherwydd hynny. Byddai angen gwneud darpariaeth benodol i gyrff olynol os oedd y Pwyllgor am ddiogelu gweithgarwch sy'n cael ei gyllido ar hyn o bryd gan weddillion TEC.
- Roedd y papur yn argymell y dylid ymgynghori gyda chwaraewyr allweddol a chytunwyd ar hyn. Cyflwynwyd nifer o gynigion ar gyfer ymgynghorwyr ychwanegol gan gynnwys y Sefydliad Personél a Datblygiad a Chwarae Teg. Rhoddwyd gwahoddiad i aelodau roi gwybod i'r clerc am unrhyw gyrff ychwanegol yr hoffent eu cynnwys. **[Gweithredu: Aelodau a'r Clerc]**

**Crynodeb y Cadeirydd**

4.6 Wrth grynhoi, nododd y Cadeirydd y canlynol fel pwyntiau allweddol a godwyd yn ystod y drafodaeth:

- Roedd rôl haen ranbarthol CETW yn faes lle'r oedd pryder parhaus. Roedd angen egluro'i rôl a'i swyddogaethau, i gynnwys cyfeiriadau at gyfrifoldeb cynhyrchu cynlluniau hyfforddi ac ati.
- Roedd y Pwyllgor yn cydnabod yr angen i weithredu ar unwaith gyda'r mater hwn a byddai'n ymdrin â hyn ar ddechrau'r arolwg ar gymorth a datblygiad busnes, yn amodol ar ddarparu manylion am swyddogaethau menter presennol TEC ac amserlen ar gyfer gweithredu’r newidiadau.

- Byddai llythyr gan y Cadeirydd i ymgynghori â chwaraewyr allweddol yn cael ei bostio cyn gynted ag y bo modd.

**Eitem 5: Arolwg Cymorth a Datblygiad Busnes**
5.1 Tynnodd y Cadeirydd sylw aelodau at y papur a gyhoeddwyd yn dilyn cyfarfod cyntaf y panel penodiadau (Cadeirydd, Ann Jones, Mike German). Rhoddodd grynodeb o'r camau gweithredu hyd yn hyn a hysbysu'r aelodau bod y panel wedi cytuno ar restr fer o bum ymgeisydd ar gyfer rôl yr ymgynghorydd arbenigol.

5.2 Cydnabuwyd bod graddfa'r arolwg yn uchelgeisiol ac efallai y byddai'n rhaid rhoi sylw eto i hyd yr arolwg. Nododd y Cadeirydd mai ei dyhead personol hi oedd cymryd cam yn ôl o'r manylion er mwyn cael arolwg trylwyr. Cytunwyd bod angen llunio amserlen ar gyfer yr arolwg cyn gynted â bod penodiad yn cael ei wneud, gyda'r nod o gynhyrchu o leiaf adroddiad dros dro erbyn y Pasg. Byddai angen i'r amserlen adlewyrchu brys y mater menter TEC, yn ogystal â goblygiadau gweithredu Amcan 1. Cytunodd Ysgrifennydd y Cynulliad i ddarparu rhestr o ddigwyddiadau, penderfyniadau neu faterion cyffredinol eraill oedd angen eu hystyried yn yr amserlen. **[Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad]**

**Eitem 6: Gweithredu Amcan 1**
6.1 Darparodd Ysgrifennydd y Cynulliad ddiweddariad cryno o'r sefyllfa bresennol o ran gweithredu. Roedd y Ddogfen Raglennu Unigol wedi'i hanfon at y Comisiwn Ewropeaidd ar 3 Tachwedd 1999 ac ar ôl i drafodaethau gael eu cwblhau roedd disgwyl i'r rhaglen gychwyn ar 1 Ebrill 2000. Pwysleisiodd nad oedd yn anarferol i'r Comisiwn Ewropeaidd gyhoeddi pwyntiau i'w trafod ymhellach ar yr adeg hon. Roedd dogfen Amcan 1 Cernyw wedi derbyn ymateb tebyg iawn i ddogfen Cymru. Roedd hi a'r Prif Ysgrifennydd wedi trefnu cyfarfod gyda Michel Barnier, Pennaeth Materion Rhanbarthol, ar 27 Ionawr i gynnal trafodaethau cyn i gyfarfodydd rhwng swyddogion ailgychwyn. Roedd y Cynulliad yn barod i ildio mewn rhai meysydd a dal eu tir gyda meysydd eraill. Byddai Ysgrifennydd y Cynulliad yn rhoi gwybod am y cyfarfod i'r Pwyllgor. **[Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad]**

6.2 Dosbarthwyd y daflen gyhoeddusrwydd **'Tuag at Amcan 1. Y Rhaglen Gronfa Strwythurol Ewropeaidd ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Cynlluniau a chynnydd Ionawr 2000'** i aelodau'r pwyllgor ac aelodau o'r cyhoedd oedd yn bresennol. Byddai'r argraffu'n cael ei gwblhau ar 31 Ionawr ac yna byddai'r prif ddosbarthiad trwy gyrff partneriaeth. Roedd y daflen yn rhoi arweiniad cyffredinol am ddulliau gweithredu. Roedd yn cynnwys pwynt cyswllt o fewn y Cynulliad i bobl allu cofrestru eu diddordeb a chael eu gosod ar restr bostio ar gyfer gwybodaeth bellach pan oedd ar gael. Roedd y daflen yn annog pobl i gysylltu â'r corff partneriaeth priodol hefyd. Cytunwyd y dylid sicrhau bod testun y daflen ar gael i'r wasg ar y cyfle cyntaf bosibl. **[Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad]**

6.3 Dosbarthwyd rhestr aelodaeth pwyllgor monitro Amcan 1 i aelodau am y tro cyntaf. Yn cynrychioli'r pwyllgor fel a gytunwyd, roedd Mike German ac Ann Jones wedi cymryd rhan yn y

broses ddethol gydag Ysgrifennydd y Cynulliad. Roeddent wedi gwneud eu gorau i gynhyrchu cydraddoldeb o ran rhyw ac yn ddaearyddol. Cafwyd trafodaeth wedyn ynglþn â chynnwys gwleidyddol cynrychiolaeth y Cynulliad er y derbyniwyd y dylai’r Cadeirydd fod yn aelod o’r Cabinet. Mynegodd Alun Cairns ei bryderon nad oedd cynrychiolaeth Geidwadol. Dywedodd Ysgrifennydd y Cynulliad mai dim ond dau le oedd ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol, un i’r Ysgrifennydd Datblygu Economaidd, a’r llall i gael ei gynnig i’r blaid fwyaf. Nid oedd hyn fel cynrychiolaeth o’u plaid, ond o’r Cynulliad i gyd. Cynghorwyd Alun Cairns i ddilyn y mater hwn trwy’r Pwyllgor Busnes.

6.4 Hysbysodd Ysgrifennydd y Cynulliad y Pwyllgor y byddai’n penodi Prif Weithredwr ar gyfer y corff gweithredol newydd o fewn pythefnos. Rhoddodd wybod i aelodau hefyd ei fod wedi ysgrifennu at WEPE i gytuno ar gylch gorchwyl yr astudiaeth oedd ar fin cael ei chyflawni i nodi llwyddiant a diffygion y rhaglen fusnes ddiwethaf. Roedd Ysgrifennydd y Cynulliad wedi ysgrifennu at Syr Harry Jones, Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gadarnhau ei fod yn cefnogi cynrychiolaeth gyfartal o’r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol mewn partneriaethau lleol a’i fod wedi gwneud copi o’r llythyr hwn i awdurdodau lleol ac aelodau eraill o’r bartneriaeth Amcan 1.

6.5 Rhoddodd y Cadeirydd wahoddiad i aelodau’r Pwyllgor drafod adrannau amrywiol o’r papur.

**Amcan 1**
*Ar drafodaethau gyda’r CE,*

- Cadarnhawyd bod gweithredu’n flaenoriaeth arall er bod y Comisiwn Ewropeaidd yn bryderus ynglþn â materion datblygiad gwledig a TGC. Roedd angen darbwyllo’r Comisiwn y gallai partneriaeth Cymru ddarparu dull pecyn effeithiol.

*Ar gyhoeddusrwydd,*

- Dylid cynhyrchu arweiniad cam wrth gam yn cynnwys geirfa o dermau technegol i sicrhau cyllid Amcan 1. Gellid defnyddio taflen Glannau Merswy fel sail ar gyfer hyn. **(Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad)**

*Ar y pwyllgor monitro,*

- Mynegwyd pryder ynglþn â chydbwysedd aelodau'r Pwyllgor Monitro o ran rhyw (12 dyn, 7 menyw ar y rhestr aelodau ac 11 dyn, 8 menyw ar y rhestr wrth gefn). Awgrymodd Helen-Mary Jones y byddai'r Comisiwn Ewropeaidd yn gwrthod y rhestr oherwydd ei fod yn disgwyl gweld cydbwysedd rhwng y ddau ryw. Er hynny, eglurodd Ysgrifennydd y Cynulliad nad oedd y sefyllfa oherwydd y broses ddethol ond oherwydd y cyrff a oedd wedi enwebu aelodau. Teimlwyd y dylai pwyllgor monitro'r wrthblaid drafod sut i sicrhau

gwell cydbwysedd rhwng y ddau ryw yn y tymor hirach yn eu cyfarfod cyntaf. **(Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad)**

- Gofynnodd y Pwyllgor am bapur ar swyddogaethau a chyfrifoldebau'r pwyllgor monitro i'w galluogi i drafod perthynas y Pwyllgor gyda'r pwyllgor monitro yn eu cyfarfod nesaf. **(Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad)**. Awgrymwyd y dylid cyflawni'r gwerthusiad o berfformiad Amcan 1, oedd yn ofynnol yn ôl y Rheoliadau, yn annibynnol, ac nid gan y rhai hynny sy'n gyfrifol am weinyddu'r rhaglen. Dylid rhoi gwybod am yr adroddiadau gwerthuso i'r Cynulliad.

*Ar becynnau,*

- Roedd pryder ynglþn â therminoleg y mathau o becynnau a oedd yn cael eu trafod. Roedd 'Cenedlaethol' yn awgrymu 'Cymru i gyd' er mai cyfeirio at yr ardal o Orllewin Cymru a'r Cymoedd a oedd gyda'r hawl i dderbyn cyllid Amcan 1 oedd mewn gwirionedd. Cytunwyd i ddefnyddio'r term 'rhanbarthol', 'is-ranbarthol' a 'lleol' yn gyson.
- Roedd y pecynnau'n ymddangos yn debyg i'r rhai hynny yn y rhaglenni presennol. Roedd angen ystyried dulliau mwy arloesol e.e. adeiladu ar allu cymunedol.
- Roedd angen ychwanegu cynigion ar gyfer ynni adnewyddadwy, cael gwared o wastraff ac ati.
- Gofynnodd aelodau am wneud copi o'r llythyr i Syr Harry Jones i'w anfon at y Cynghorau Gwasanaeth Gwirfoddol Sirol. **(Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad)**
- Er y byddai disgwyl i awdurdodau lleol gicdanio'r broses bartneriaeth, byddai disgwyl i'r partneriaethau fod yn bartneriaid cyfartal ar ôl iddynt fodoli. Byddai hyn yn gofyn am rywfaint o newid diwylliannol ledled Cymru.
- Roedd Gweithlu bach wedi'i gadw tan i'r Bartneriaeth weithredu'n llawn.
- Cytunwyd y gellid cyfuno'r angen am waith pellach ar oblygiadau gofodol gweledigaeth y Cynulliad i Gymru gyda 'brandio' Cymru.
- Codwyd y mater o lwyddiant rhaglenni'r Fargen Newydd. Byddai papurau ar allbwn y Fargen Newydd yn cael eu dosbarthu i aelodau'r Pwyllgor **(Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad)**

**Amcan 2**

- Byddai'r Pwyllgor yn trafod drafft SPD Amcan 2 ar 1 Mawrth.

**Amcan 3**

- Cadarnhaodd y Pwyllgor y byddai'n hoffi gweld cyfrifoldeb am gyllideb ESF yn cael ei symud i'r Cynulliad o'r DfEE cyn belled â bod y PES angenrheidiol a'r costau gweinyddu'n cael eu trosglwyddo hefyd.
- Cytunodd Ysgrifennydd y Cynulliad i roi gwybod am ganlyniadau'r trafodaethau Amcan 3 i'r Pwyllgor. **(Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad)**

- Byddai papur ar y pedair menter Gymuned yn cael ei ddarparu. **(Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad)**

**6.6 Crynodeb y Cadeirydd**

- Nododd bod cynnydd yn cael ei wneud, er bod llawer mwy o waith i'w wneud o hyd.
- Roedd y trafodaethau â'r Comisiwn Ewropeaidd yn parhau. Roedd materion pwysig i'w datrys yn ymwneud â thargedau a gweithredu, ac roedd y Pwyllgor yn ymwybodol o hynny.
- Roedd y set gyntaf o gyhoeddusrwydd Amcan 1 yn barod ac roedd y Pwyllgor wedi pwysleisio bod angen i'r set nesaf gynnwys manylion am derminoleg a'r raddfa amser.
- Roedd y berthynas rhwng y Pwyllgor Datblygu Economaidd a'r Pwyllgor Monitro angen ei ystyried. Byddai cyfansoddiad gwleidyddol y pwyllgor monitro'n cael ei ystyried trwy sianeli gwleidyddol.
- Roedd angen cynnal momentwm datblygiad pecynnau er mwyn i bobl wybod sut fyddai'r rhain yn gweithio, gyda phwy ddylent siarad a sut oedd y gwahanol lefelau'n ymwneud â'i gilydd.
- Byddai'r Pwyllgor yn dychwelyd at y Cynllun Datblygiad Gwledig ac Amcan 2 mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**Eitem 7: Data Sylfaenol Targedau**

7.1 Wrth gyflwyno'r eitem, nododd y Cadeirydd y byddai angen i'r Pwyllgor ddychwelyd at drafodaeth bellach am dargedau ar ôl i'r trafodaethau â'r Comisiwn Ewropeaidd gael eu cwblhau. Roedd angen bodloni'r Pwyllgor bod data sylfaenol ar gael.

7.2 Eglurodd Mike Phelps mai nod y papur oedd dangos beth ellid ei gasglu o ddata a gesglir fel rheol. Dylid casglu data perthnasol trwy'r broses weinyddol ar ôl i'r rhaglen Amcan 1 gychwyn. Roedd angen gofyn pa gwestiynau oedd angen eu hateb i ddeall a fyddai'r data hwn yn ddigonol, ac ni fyddai'r rhain yn hysbys nes i’r rhaglen gael ei chytuno. Efallai y byddai angen comisiynu ymchwil benodol i ymdrin â meysydd diddordeb penodol.

7.3 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth am y papur:

- Byddai'r angen i gasglu data sylfaenol ar lefel NUTS 2 i leiafrifoedd ethnig yn dasg enfawr ond fe allai fod yn ddefnyddiol i ddibenion eraill.
- Y derminoleg oedd yn cael ei ffafrio oedd 'pobl anabl' nid 'pobl ag anableddau'
- Yn ogystal â'r targed i gynyddu nifer y menywod sy’n weithgar yn yr economi yn y gweithlu (paragraff 24), dylai'r Pwyllgor ymchwilio i sefydlu targedau i ostwng gwahaniaethu ar sail rhyw yn y gweithle.
- Byddai'n ddefnyddiol archwilio'r ymchwil gan y Comisiwn Cyfleoedd Cyfartal ar Fenywod mewn Rheolaeth a chael data fwy ansoddol ar fenywod sy'n dychwelyd i fyd gwaith.
- Er mwyn ymdrin â'r broblem o ddiffiniadau cenedligrwydd anghyson (paragraff 31), dylid

defnyddio diffiniadau a ddefnyddir gan gyrff statudol fel y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol. Er nad ydynt yn gynhwysfawr, byddai'r rhain yn fan cychwyn defnyddiol. Roedd yn anodd dyfeisio cwestiwn ar y cyfrifiad i ddatgelu cenedligrwydd oherwydd y gallai pobl fod wedi penderfynu disgrifio'u hunain yn Gymry. Er hynny, o edrych ar y cyfrifiad diwethaf, roedd nifer y lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru'n isel iawn mewn ardaloedd Amcan 1.

- Casglwyd y mwyafrif o ddata gan yr ONS yn hytrach na'r Cynulliad, (e.e. yr Arolwg Gweithlu, sef prif ffynhonnell ystadegau llafur).
- Er hynny, roedd Cyfarwyddwyr Ystadegau'r Cynulliad wedi cymryd rhan mewn trafodaethau gyda'r Bartneriaeth Gydraddoldeb i lunio cynigion ar gyfer casglu data'n annibynnol. Un posibilrwydd addawol oedd casglu data gweithlu trwy arolwg cyflogwyr ar ddechrau, canol a diwedd rhaglen Amcan 1 (roedd yr Arolwg Gweithlu yn arolwg o aelwydydd ac nid cyflogwyr).
- Byddai'n bwysig cael ymchwil bellach ar yr anweithredol tymor hir i weld beth oedd y problemau a beth allai eu hannog i ail-ymaelodi â'r farchnad lafur **(Gweithredu: Michael Phelps)**
- Gofynnwyd i'r ONS nodi a rhoi pris ar ffynonellau gwybodaeth pwysig. Byddai'r clerc yn cael ei hysbysu ar ôl i'r ONS ddarparu ymateb **(Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad)**

**Crynodeb y Cadeirydd**

- Diolchodd y Cadeirydd i Michael Phelps am y papur defnyddiol a dywedodd ei bod yn teimlo bod y Pwyllgor yn torri tir newydd wrth archwilio'i dargedau. Byddai angen dychwelyd at y mater ar ôl cwblhau'r trafodaethau gyda'r Comisiwn Ewropeaidd.

**Eitem 8: Cyllideb**

8.1 Wrth gyflwyno'r papur ar gyfer trafodaeth bellach nododd y Cadeirydd ei fod wedi'i osod allan mewn ffordd hygyrch iawn a hawdd i'w ddarllen. Nododd nad oedd llawer o le i newid y gyllideb oherwydd bod rhan sylweddol ohoni'n sefydlog.

8.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cadarnhawyd bod y £17 miliwn a ddyrannwyd i Gorfforaeth Ddatblygu Bae Caerdydd ar gyfer 2000-01 yn cynnwys y swm o £14 miliwn a oedd wedi'i nodi mewn papur blaenorol. Roedd pryder y byddai'r swm terfynol yn uwch na £17 miliwn ond dywedodd y Cadeirydd wrth aelodau bod Cyngor Sir Caerdydd wedi rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor yn y cyfarfod diwethaf y gallent ddarparu'r gwasanaeth y cytunwyd arno o fewn y swm y cytunwyd arno. Roedd Steve Phillips wedi hysbysu'r Pwyllgor bod y Cyngor Sir wedi darparu'r swm mewn lled-gontract.
- Nid penderfyniad terfynol am ddyraniadau rhwng y llinellau yw'r ffigyrau a ddarperir oherwydd ceir addasiadau yn ystod y flwyddyn. Byddai'r Pwyllgor yn ystyried newid rhwng y llinellau wrth i'r flwyddyn fynd heibio.

- Nid oedd y gronfa Llwybr i Lwyddiant yn rhan o gyfrifoldeb y Pwyllgor Datblygu Economaidd yn unig, ond roedd yn cael ei osod yng ngrðp gwariant y Pwyllgor oherwydd fod ganddo gyfrifoldeb am fwyafrif y gronfa. Roedd cyfanswm yr arian yn y gronfa yn £10,397 miliwn ar gyfer 2000-01, ond ar ôl tynnu'r dyraniad ar gyfer ffyrdd, £6,397 miliwn oedd ar ôl i'r rhaglen Datblygu Economaidd. Cytunodd Ysgrifennydd y Cynulliad i gynhyrchu adroddiad i ddangos sut ellid defnyddio arian Llwybr i Lwyddiant ar gyfer y cyfarfod nesaf. **(Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad).**
- Cwestiynwyd y swm a ddyrannwyd i ERDF a chadarnhawyd mai elfen y CE yn unig o’r gwariant oedd hyn yn ei gynrychioli. Byddai arian cyfatebol yn dod o gyllidebau eraill. Cwestiynwyd digonolrwydd y cyllid, ond dywedodd Ysgrifennydd y Cynulliad ei fod yn fodlon bod hyn yn ddigonol.
- Mynegodd y Cadeirydd ei phryderon am brofiad Ymddiriedolaethau Groundwork a oedd yn cymryd rhan fawr mewn adfywiad trefol ar lefel leol a chyda rôl fawr i’w chwarae yn Amcan 1 o bosibl. Nid oedd digon o arian wedi’i ddyrannu yn y cronfeydd adfywio i ehangu eu rôl. Cytunwyd i ddychwelyd at y cwestiwn o wahanol benawdau cyllideb yn y gyllideb adfywio trefol mewn cyfarfod yn y dyfodol. **(Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor)**
- Cytunodd Ysgrifennydd y Cynulliad i ymchwilio a oedd digon o arian ar gael i gynorthwyo datblygiad rhwydweithio e.e. sefydliadau cyflogwyr. Byddai hyn helpu sectorau gwahanol i gael llwybr mwy cynrychioliadol er mwyn cydweithio â’r Cynulliad. **(Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad)**

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor
Ionawr 2000